

## WILLIAMS, JOHN (1806 - 1856), gweinidog gyda'r Bedyddwyr, llenor, ac awdur

**Enw:** John Williams  
**Dyddiad geni:** 1806  
**Dyddiad marw:** 1856  
**Rhiant:** Elizabeth Jones  
**Rhiant:** Robert Williams  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Bedyddwyr, llenor, ac awdur  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu  
**Awdur:** William Phillips

Mab Robert Williams, brodor o Landdoged, ac Elizabeth Jones, yr Efail, Glanwydden, Creuddyn, Arfon; ganwyd ef yng nghartref ei fam, 20 Mehefin 1806. Dengys ei ysgrifau ei ddiddordeb cynnar mewn llenyddiaeth ac ieithoedd, ac ymroes i'w dysgu ac i ddiwyllio ei feddwl. Wedi cwrs byr yn ysgol John Hughes, periglor Llanddulas, daeth tan nawdd teulu [Bodysgallen](#) a'i anfon i ysgol Robert Watkin Lloyd, Tamworth, i'w baratoi i Rydychen. Naw mis a arhosodd yno. Dychwelodd adref a chael ei hun mewn argyfwng - ei noddwr wedi ei siomi, ei bobl wedi digio.

Cydiodd eilwaith yn ei efrydiau a chael ei wahodd i gadw ysgol yn Eglwysbach (1830-3), a dechrau pregethu. Bu'n weinidog yn Llansilin a Moelfre (1833-6), Rhos a'r Brymbo (1836-41), y Drenewydd (1841-53), Rhos, a Phenycæ (1853-6). Cadwodd ysgol i hyfforddi ymgeiswyr am y weinidogaeth mewn rhai o'r lleoedd hyn.

Daeth tan ddylanwad y mudiad Campbelaidd. Cyfieithodd draethawd Alexander Campbell ar faddeuant, ac yn 1839 dechreuodd gyfieithu ei *Destament Newydd* a'i alw *Yr Oraclau Bywiol*, 1842. Bernir heddiw mai cyfieithiad llythrennol o Destament Alexander Campbell a gweithiau George Campbell, J. Macknight, a P. Doddridge ydyw *Oraclau Bywiol*, ac nid cyfieithiad o'r Groeg fel y taerodd yr awdur. Ei waith mwyaf gorchestol ydyw *Ffugyrau y Beibl*. Cais ydyw i hyfforddi'r darllenydd yn egwyddorion gwyddor esboniadaeth. Nid llai ei gyfraniad fel ieithydd, a gwelir bod ganddo syniad clir am swyddogaeth y gramadegwr. Y mae delw'r farn annibynnol ar ei erthyglau, a'u hamcan yw goleuo'r deall, diwyllio'r meddwl, a gwneuthur dyn yn ddinesydd rhydd. Bu farw 15 Tachwedd 1856 a chladdwyd ef ym mynwent Penycæ lle ceir cofgolofn ar ei fedd.

### Awdur

Y Parchedig William Phillips, (1880 - 1969)

### Ffynonellau

R. Ellis ('Cynddelw'), *Cofiant y diweddar Parch. John Williams, Rhosllanerchrugog* (Llangollen 1871)

*Yr Oraclau Bywiol, neu Ysgrifeniadau Cysegrian Apostolion ac Efengylwyr Iesu Grist, a elwir y Testament Newydd. Wedi ei gyfieithu* (Llundain 1842)

*Ffugyrau y Beibl, neu gyfres o ysgrifau ar ddeongliaeth yr ysgrythyrau* (Caernarfon 1890)

'Testament Campbell' - dadl J.W. â 'Q.', *Seren Gomer*, [Gorphenaf 1839](#), t.216; [Awst 1839](#), tt.233-234; [Rhagfyr 1839](#), tt.360-364; [Chwefror 1840](#), tt.39-40; [Mawrth 1840](#), tt.69-75; [Mai 1840](#), t.143; [Mehefin 1840](#), tt.167-168; [Awst 1840](#), tt.235-236; [Hydref 1840](#), tt.294-297

'J.W. Ei gyfraniad i ddiwinyddiaeth,' *Seren Gomer*, 1933, 25, 63, 102

W. Phillips, 'Bywyd a gwaith John Williams, Rhos; Awdur yr oraclau bywiol' - thesis Prifysgol Cymru, Bangor, 1947

W. Phillips, *Testament Newydd Alexander Campbell* (1826)

George Campbell, *The Four Gospels, translated from the Greek. With preliminary dissertations, and notes critical and explanatory* (Llundain 1789)

P. Doddridge *The Family Expositor or, a Paraphrase and Version of the New Testament with critical notes; and a practical improvement of each section* (Llundain 1760, 1831)

J. Macknight, *A New Translation of the Epistle* (1832)

John Williams, *Gramadeg dwyieithawg neu ramadeg o'r iaith Seisnig yn Gymraeg a Saesneg, wedi ei gyfansoddi at wasanaeth ac er buddioldeb cymroidd = Duoglott grammar or A grammar of the English language in Welsh and English,*

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: [306123294](#)

Wikidata: [Q20738119](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

